tafod elái

EBRILL 2019

Rhif 336

Pris 80c

Eisteddfod Genedlaethol 2022 i'w chynnal yn Rhondda Cynon Taf

Datgelwyd yn rhifyn Rhagfyr o Tafod Elái fod Rhondda Cynon Taf yn cael ei ystyried ar gyfer lleoliad Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2022. Bu Pwyllgor yr Eisteddfod yn cyfarfod yn ddiweddar i ystyried mynegiadau o ddiddordeb mewn cynnal yr achlysur yn 2022, a chadarnhawyd mai Rhondda Cynon Taf fyddai cartref yr ŵyl y flwyddyn honno.

Bydd gwaith paratoi pellach yn dechrau i ddatblygu'r achlysur cenedlaethol eiconig yma yn yr ardal. Mynegodd y Cyngor ei ddiddordeb mewn cynnal yr achlysur yn ôl yn 2017.

Dyma'r hyn ddywedodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol Andrew Morgan, Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf am y newyddion:

"Mae'n anrhydedd i'n Bwrdeistref Sirol dderbyn cadarnhad y bydd hi'n gartref i Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2022 ac rwy'n sicr y bydd yr achlysur yma yn cynnig cyfleoedd economaidd pwysig i Rondda Cynon Taf.

"Mae gan yr achlysur y potensial i roi hwb economaidd mawr trwy roi'r cyfle inni arddangos yr hyn sydd gan ein Bwrdeistref Sirol i'w gynnig fel cyrchfan diwylliannol i ymwelwyr.

"Rydyn ni'n bwriadu cynnal yr achlysur mewn lleoliad canolog er mwyn manteisio i'r eithaf ar draws y rhanbarth. Bydd gan bob rhan o Rondda Cynon Taf gyfraniad i'w wneud wrth gynnal achlysur llwyddiannus a sicrhau bod ymwelwyr yn cael croeso cynnes i'n Sir.

Ychwanegodd Prif Weithredwr yr Eisteddfod Genedlaethol, Betsan Moses, "Rydyn ni wrth ein boddau'n gweithio gyda Rhondda Cynon Taf i ddod â'r Eisteddfod Genedlaethol i'r ardal yn 2022. Rydyn ni'n falch i'r Eisteddfod fodern gyntaf gael ei chynnal yn Aberdâr ym 1861, ac yn edrych ymlaen at weithio gyda'r gymuned leol ar draws yr ardal i ddod â'r ŵyl i'r Sir yn yr 21ain Ganrif.

Cangen Merched y Wawr Pontypridd yn dathlu ei dengmlwyddiant. Cafwyd noson hyfryd ym Mwyty Caesar's.

Cam yn ôl i'r Gymraeg ym Mhontypridd

Er fod gwrthwynebiad cadarn mae Cabinet Cyngor Rhondda Cynon Taf wedi penderfynu parhau gyda bwriad i ad-drefnu ysgolion Cymraeg Pontypridd drwy gau Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton ac Ysgol Heol-y-Celyn ac adeiladu ysgol newydd sbon ar safle presennol Heol-y-Celyn.

Roedd nifer o rieni a chefnogwyr wedi mynd i'r cyfarfod yng Nghlydach i ddatgan eu gwrthwynebiad i'r cynllun ac meddai Ceri McEvoy, Cyfarwyddwr Datblygu Rhieni Dros Addysg Gymraeg, "Mae penderfyniad heddiw yn hynod siomedig. Mae RhAG yn rhannu pryderon rhieni ac ymgyrchwyr lleol sy'n gofidio y bydd bwrw ymlaen â'r cynnig hwn yn cael effaith andwyol ar yr iaith Gymraeg yng nghymunedau gogledd Pontypridd.

"Nid yw'r cynnig yn ymateb i anghenion addysgol ac ieithyddol yr ardal. Ni fydd amddifadu cymunedau o addysg Gymraeg hygyrch a lleol yn bodloni disgwyliadau Llywodraeth Cymru. Ac ni fydd cynyddu'r rhwystrau i gael mynediad at addysg Gymraeg yn cynorthwyo'r Sir i greu 6,054 o siaradwyr Cymraeg ychwanegol erbyn 2021, fel sydd wedi'i nodi yng Nghynllun Strategol y Gymraeg RhCT 2017-20

"Rydym o'r farn bod y cynnig yn wallus ac nad yw'n profi bod gwaith digonol ac ystyrlon wedi ei wneud i ymchwilio i safleoedd posibl eraill – megis safle hen ysgol Tŷ Gwyn, fel sydd wedi'i gadarnhau drwy gais Rhyddid Gwybodaeth - nac wedi mesur yn llawn, effaith ieithyddol y cynnig ar gymunedau gogledd y dref.

"Tra'n derbyn yn llwyr bod angen buddsoddi mewn adeilad newydd ar gyfer Ysgol Gymraeg Pont Sion Nortôn – ac yn wir, wrth groesawu'r buddsoddiad gwerthfawr hwnnw - mae gwersi o siroedd eraill wedi dangos bod cymryd y penderfyniad anghywir yn medru arwain at ganlyniadau anuniongyrchol, all gael effaith andwyol ar sefydlogrwydd a thwf y ddarpariaeth. Byddai'n gwbl anfaddeuol syrthio i'r un fagl yn yr achos hwn.

"Heddiw mae'r Cabinet wedi colli cyfle i ofyn i swyddogion gynnal gwaith pellach ar ystod o opsiynau amgen, creadigol er mwyn ymateb i bryderon rhieni a chadw'r ddarpariaeth yn lleol yng nghymunedau Pontypridd.

"Er mwyn cyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, rhaid mynd â chymunedau RhCT - a gweddill Cymru - gyda ni ar hyd y daith, ac nid eu dieithrio oddi wrth y Gymraeg."

Ysgol Creigiau

EISTEDDFOD YSGOL

Ddydd Gwener cyn hanner tymor dathlon ni Ddydd Gŵyl Dewi drwy gynnal ein Heisteddfod Ysgol. Bu'r disgyblion i gyd yn paratoi eitemau amrywiol er mwyn eu perfformio yn ystod y dydd. Cafodd disgyblion o bob dosbarth eu gwobrwyo am ddarnau o waith celf a gwaith llythrennedd. Cawsom ddiwrnod i'r brenin ac ar ôl brwydr galed, llys Iestyn oedd yn fuddugol.

CRIW CYMRY CŴL

Aeth Criw Cymry Cŵl Blwyddyn 6 i'r Cylch Meithrin yn Neuadd y Sgowtiaid yn ddiweddar. Cafon nhw hwyl yn sgwrsio yn y Gymraeg gyda'r plant bach a darllen straeon iddynt.

HER DDŴR LLAIS Y PLENTYN

Cawsom wasanaeth arbennig i ddathlu ein llwyddiant yn Her Ddŵr Llais y Disgybl. Roedd yr her, a osodwyd gan Dîm Ysgolion Iach Caerdydd, yn annog cynghorau ysgol gynradd a grwpiau llais disgyblion i gynnig syniadau i gynyddu faint o ddŵr y mae disgyblion yn ei yfed yn ystod y diwrnod ysgol. Enillodd disgyblion Ysgol Creigiau'r wobr gyntaf am eu syniadau i hyrwyddo'r defnydd o ddŵr. Mynychodd Mrs Trigg a Mrs Horwood o'r Tîm Ysgolion Iach ein gwasaneth ynghyd â Nadine Griffiths, Rheolwr Rhaglen Ysgolion y Gleision, a Rhys Gill, chwaraewr Rygbi Gleision Caerdydd. Cawsom gyflwyniad gan ein grŵp SNAG yn esbonio'r gwaith a wnaed i ennill y wobr a siaradodd Rhys am bwysigrwydd yfed digon o ddŵr. Gofynnodd y disgyblion lawer o gwestiynau synhwyrol a pherthnasol yn ystod sesiwn holi ac ateb gyda Rhys. Roedd yn brynhawn cyffrous iawn i bawb gyda phob disgybl yn derbyn potel ddŵr gan Rhys.

CYFEILLION CREIGIAU

Ar y 7fed o Fawrth fe gerddodd Dosbarth 2 draw i Neuadd y Pentref i ddiddanu Cyfeillion Creigiau. Mwynheuon nhw berfformio iddynt a chafon nhw gyfle i sgwrsio gyda'u ffrindiau newydd. Maent yn edrych ymlaen at ymweld â nhw eto.

DIWRNOD Y LLYFR

Gwisgodd y disgyblion (a rhai athrawon!) i fyny fel cymeriad o'u hoff lyfr i ddathlu 'Diwrnod y Llyfr'. Gorymdeithiodd y disgyblion o gwmpas iard yr ysgol - am olygfa fendigedig!

DIWRNOD TRWYN COCH

Cawsom ddiwrnod lliwgar a llachar yn dathlu Diwrnod Trwyn Coch yn ein dillad 'od'! Codwyd £369.55 i'r elusen.

GWERSI NOFIO

Dros bythefnos ym Mis Mawrth, bu disgyblion Blwyddyn 3 a 4 yn ymweld â Chanolfan Hamdden y Tyllgoed i gael gwersi nofio. Roedd pob un wedi gwella eu sgiliau nofio yn ystod y sesiynau ac wedi cael hwyl ar ddiwedd yr wythnos!

EISTEDDFOD OFFERYNNOL

Llongyfarchiadau i Erin, Dosbarth 6, am ei pherfformiad arbennig ar y piano yn Eisteddfod Offerynnol yr Urdd.

EISTEDDFOD DDAWNS YR URDD

Llongyfarchiadau i'r sgwad Dawnsio Disgo a gystadlodd yn Eisteddfod Ddawns yr Urdd yn Neuadd Goffa'r Barri yn ddiweddar. Roedd safon y dawnsio yn uchel a pherfformiodd y merched yn ardderchog. Daethant yn drydydd allan o 7 grŵp. Da iawn ferched - gwych! Diolch o galon i Mrs Tewkesbury a Miss Ryall am eu hyfforddi.

YSGOL SY'N PARCHU HAWLIAU

Yn ddiweddar derbynion ni'r newyddion da ein bod wedi llwyddo i gyflawni cam cyntaf y Wobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau. Rydym nawr yn ysgol Efydd: Ymrwymiad i Hawliau. Da iawn i bawb fu'n ymwneud â sicrhau'r llwyddiant hwn. Byddwn nawr yn gweithio tuag at y wobr Arian.

TONYREFAIL

Gohebydd Lleol:
Helen Prosser
671577/prosserh@btinternet.com

Noson Sgwrsio

Mae'r criw sy'n cwrdd ar gyfer y Noson Sgwrsio fisol yn y Clwb Rygbi yn tyfu. Dewch i ymuno â ni. Byddwn ni'n cwrdd nesaf am 7pm ar nos Fawrth, 16 Ebrill. Croeso i bawb!

Brysiwch Wella Marion

Marion Llewellyn yw darllenydd hynaf Y Tafod yn Nhonyrefail a hithau'n naw deg pump oed. Mae wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar ond mae'n dda iawn gallu adrodd ei bod hi bellach wedi cael dod adref. Brysiwch wella!

YMWELD Â'R THEATR NEWYDD

Ymwelodd disgyblion Blwyddyn 4 â'r Theatr Newydd i wylio perfformiad o 'The Terrible Tudors'. Roedd pob un wedi mwynhau'n fawr.

BLWYDDYN 6 YN YMWELD Â SAIN FFAGAN

Aeth disgyblion Blwyddyn 6 i Sain Ffagan i ddysgu mwy am fywyd yn ystod Oes Victoria. Cawsant brofiad o eistedd mewn gwers yn yr ysgol Victorianaidd. Roedden nhw wedi mwynhau'n fawr er bod nifer wedi nodi bod yr athrawes lawer yn fwy llym na Miss Williams a Miss Griffin!

GŴYL BÊL-FASGED

Aeth 12 o ferched Blwyddyn 6 i gymryd rhan mewn gŵyl bêl-fasged ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd yn ddiweddar. Hyfforddwr y digwyddiad oedd Stef Collins, chwaraewr pêl-fasged Olympaidd a'r Gymanwlad. Trefnwyd y digwyddiad gyda'r nod o ddenu mwy o ferched i gymryd rhan yn y gamp. Derbyniodd y merched bêl-fasged yr un a gwahoddiad i fynd i gêm bêl-fasged. Derbyniodd Emily, Class 6, wobr arbennig am ei hagwedd a'i brwdfrydedd yn ystod y dydd. Llawer o ddiolch i Mrs Hussey am fynd â'r merched.

Ysgol Tonyrefail

Dathlu Dydd Gŵyl Dewi
Daeth pawb i'r ysgol yn eu gwisgoedd Cymreig i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Cynhaliwyd eisteddfod ysgol gyda chystadlu brwd ymysg y disgyblion.

Llongyfarchiadau arbennig i Rebekah Lewis ar ennill cadair yr eisteddfod ac i Ava Martin-Thomas am ddod yn 2il a Marley John 3ydd.

Eisteddfod Gylch yr Urdd
Llongyfarchiadau mawr i'r holl ddisgyblion a gafodd eu dewis i gynrychioli'r ysgol yn eisteddfod gylch yr Urdd yn Llanhari. Cafwyd eisteddfod lwyddiannus iawn eto eleni - Rebekah Lewis 1af llefaru Bl5/6 a 1af Alaw Werin, Ava Martin-Thomas 1af Unawd a 3ydd llefaru Bl5/6, Isabelle Cartwright 2il Unawd Bl 5/6, Brooke Larkman 2il Llefaru Bl3/4, Harri Williams 3ydd Unawd Bl3/4. Da iawn chi! Pob lwc i Rebakah ac Ava yn yr eisteddfod sir ym Mhorthcawl.

Llys Llywelyn
Bu disgyblion yr Adran Iau ar drip i Sain Ffagan i ymweld â Llys Llywelyn i ddysgu mwy am fywyd yng Nghymru yn ystod Oes y Tywysogion. Yn ystod eu gwaith thema ar gestyll maent wedi dysgu llawer iawn am hanes Tywysogion Cymru.

Wythnos Gwyddoniaeth
Roedd pob dosbarth yn llawn gwyddonwyr prysur yn ystod wythnos dathlu gwyddoniaeth. Roedd pawb yn frwdfrydig iawn yn cyflawni llu o weithgareddau ymarferol.

Gig Bronwen Lewis
Fel rhan o waith y clwstwr i gefnogi'r Siarter Iaith cafodd disgyblion o'r Adran Iau wahoddiad i gig Bronwen Lewis yn Ysgol Dolau. Cafwyd perfformiad ardderchog gan Bronwen a braf oedd gweld y plant yn mwynhau'r noson o adloniant Cymraeg.

Taith o Amgylch yr Ysgol
Cafodd y rhieni gyfle i gael paned a sgwrs a chyfle i weld yr ysgol a'r gwaith. Diolch yn fawr i'r Cyngor Ysgol am weini'r lluniaeth ac am dywys y rhieni o amgylch yr ysgol a'r dosbarthiadau.

Diwrnod y Llyfr
Cynhaliwyd nifer o weithgareddau amrywiol ym mhob dosbarth i ddathlu diwrnod y llyfr. Diolch yn fawr yn arbennig i ddisgyblion Blwyddyn 6 am ddarllen yn frwdfrydig gyda disgyblion y Cyfnod Sylfaen.

Dathlu gyda Dewi

Dewi Llwyd oedd y Gŵr Gwadd yng Nghinio Gŵyl Dewi Clwb y Dwrlyn yng Nghlwb Golff Creigiau, ddydd Sul cyntaf mis Mawrth. Cafwyd gwledd o fwyd ac araith bwrpasol yn cynnwys cwis adnabod lleisiau enwog.

Cefnogaeth i Parti Ponty

Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf wedi penderfynu rhoi £20,000 y flwyddyn i gefnogi Parti Ponty dros y tair blynedd nesaf. Menter Iaith sy'n trefnu Parti Ponty ac am y tro cyntaf, yn 2018, cynhaliwyd y Parti yng nghanol tref Pontypridd. Roedd y diwrnod yn llwyddiant ysgubol a daeth miloedd o bobl i'r dref.

Defnyddiwch eich Llyfrgell lleol

Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf yn darparu pump Llyfrgell Cyhoeddus yn yr ardal — Pontypridd, Llantrisant, Pontyclun, Pentre'r Eglwys a Rhydfelen. Hefyd mae gwasanaeth teithiol yn ymweld â nifer o bentrefi'r ardal bob tair wythnos. Wrth i doriadau effeithio ar y gwasnaeth yma mae galw am rhagor o wirfoddolwyr sy'n gweithio ochr yn ochr â staff llyfrgelloedd ac yn chwarae rhan bwysig wrth ehangu a gwella'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu.

Mewn arolwg o'r gwasanaeth datgelwyd fod llai na 4% o'r gwariant ar lyfrau yn cael ei wario ar lyfrau Cymraeg. Wrth drafod yr arolwg dywedodd y Cynghorydd Danny Grehan fod angen cynyddu'r gwariant yma ond yn ôl swyddogion y Cyngor mae hyn yn ddigon ar gyfer y galw.

Agorwyd darpariaeth newydd yn Llyfrgell Rhydfelin a bydd Llyfrgell Pontypridd yn symud i'r adeilad newydd ger yr hen bont yn ystod y dwy flynedd nesaf.

Ewch draw i weld y gwasanaethau sydd ar gael yn eich llyfrgell. Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan y Cyngor.

PONTYPRIDD

Gohebydd Lleol:
Jayne Rees

Merched y Wawr
Llongyfarchiadau i'r Gangen wrth iddynt ddathlu ei dengmlwyddiant eleni. Cafwyd noson hyfryd ym mwyty Caesar's yn ddiweddar. Braf oedd croesawu Siân Cadifor i'n plith i ymuno yn y dathlu. Mae 'r aelodau yn danfon cyfarchion at Mrs. Myfanwy Lloyd, Y Pared, sydd wedi bod yn derbyn triniaeth dros y misoedd diwethaf. Brysiwch nôl atom Myfanwy. Does dim cyfarfod mis Ebrill ond mae croeso i'r aelodau ymuno â Changen Tonysguboriau i wrando ar brofiadau Gwenno Rees ym Mhatagonia.

Nos Iau,Mai 9fed am 7.30 p.m. yn Festri Capel Sardis Cyfarfod Blynyddol y Gangen.

Pilates
Mae Mike Ebbsworth, Parc Prospect wedi cael tipyn o gyhoeddusrwydd gyda'i newid gyrfa. Ymddangosodd ar Heno gan wneud ei orau i ymestyn coesau'r cyflwynydd Daf Wyn! Yr wythnos ganlynol buodd am gyfweliad byw ar Pnawn Da. Cofiwch am y wers Pilates yn Gymraeg gyda Mike yn Garth Olwg bob bore Mawrth am 10.15 a.m.

Clwb Llyfre
Dwy gyfrol Gymraeg fydd dan sylw mis yma sef 'Esgyrn' gan Heiddwen Tomos a 'Siani Flewog' gan Ruth Richards. Dewch i Glwb y Bont nos Fawrth, Ebrill 9fed am 7.30p.m
Byddwn yn trafod y nofel Saesneg 'Tangerine' gan Christine Mangan nos Fawrth, Mai 14eg am 7.30yh.

Clwb y Bont
Diolch i bawb ddaeth draw i noson o ddathlu Gŵyl Dewi yng nghwmni Geraint Lovgreen a'r Enw da. Diolch arbennig i'r Grŵp Iwcs o dan arweiniad Dafydd Roberts ac i'r grŵp Dim Problem.

Beth am ddod draw nos Fawrth am 8.00 i'r Cwis wythnosol? Timau o 4. £20 i'r buddugwyr

Gwellhad Buan
Pob dymuniad da i Margaret Francis, Parc Prospect sydd wedi derbyn triniaeth ar ei llygaid yn ystod y misoedd diwethaf.

Y CYNLLUN SIARAD

Annwyl Gyd-ddarllenwr
Fis Tachwedd llynedd daeth Helen Prosser, Cyfarwyddwr y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol at Gangen Y Garth o Ferched y Wawr i sôn am y Cynllun Siarad, sy'n gofyn i siaradwr Cymraeg rhugl gwrdd â dysgwr am 10 awr o fewn chwe mis er mwyn rhoi ymarfer siarad anffurfiol iddo/i tu allan i ddosbarth, a chyrraedd nod y Cynulliad, a ninnau, o filiwn o siaradwyr Cymraeg.

Oherwydd imi ymgeisio i ymuno â'r Cynllun cyn y Nadolig cefais fy nghorlannu yng Nghynllun Caerdydd: doedd Cynllun RhCT ddim yn cychwyn tan mis Ionawr. I ddangos hyblygrwydd y Cynllun ichi, rwyf wedi cyfarfod â dysgwraig bedair gwaith hyd 8fed Chwefror, yna bu bwlch o bum wythnos nes inni gwrdd ar 15fed Mawrth. (Mae hi'n mynd i ddosbarth Cymraeg hefyd.) Ni ein hunain drefnasom le i gyfarfod, ac er maintais i mi, roedd yn gyfleus iddi hi ddod i uwchystafell Coffee 1, Eglwys Newydd o 12.30 i 1.30 ar ddydd Gwener.

Cafwyd ebost ganol mis Mawrth gan Gwenllian Willis, Trefnydd Cynllun Siarad Caerdydd, yn dweud bod 27 o ddysgwyr Caerdydd yn disgwyl am siaradwr rhugl, ac yn annog y rhai eisoes ar y Cynllun i hysbysu/atgoffa eu cydnabod a'u ffrindiau o'r Cynllun. Dyna a wnaf yn awr, rhag ofn bod rhai ohonoch am ystyried cymryd rhan. Gellir ebostio Gwenllian yn uniongyrchol: WillisG1@cardiff.ac.uk neu Helen Prosser (os am RhCT a lle, efallai, bod y galw yn **fwy**), ond yn well byth, cofrestru fel siaradwr rhugl ar wefan learnwelsh.cymru/learning/siarad/siaradwr-register/.

Dwi'n gwerthfawrogi, gyda llaw, bod rhai ohonoch wedi rhoi llawer o'ch amser eisoes i gefnogi dysgwyr Cymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol dros y blynyddoedd.

Rhian Warburton



CREIGIAU

Gohebydd Lleol:
Nia Williams
colin.williams@talktalk.net

Cydymdeimlo.
Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Sian a Martin Powell a'r bechgyn Rhys a Gareth, Llys Teilo. Collodd Sian ei chwaer, Anita yn ddiweddar ar ôl brwydr gyda chancr. Bu farw ddydd Llun y pedwerydd o fis Mawrth yn ei chartref yn yr Wyddgrug. Roedd yn fam i Rhodri a Ceri. Hi oedd unig chwaer Sian ac roedd yn ferch i Wynn a Mair Hughes, Aberystwyth. Yn meddwl amdanoch.

Teleri Jones yn gadael Mudiad Meithrin

Cafodd staff Mudiad Meithrin talaith y De Ddwyrain noson hwyliog nos Iau 14/3 yn La Luna Tonysguboriau yn ffarwelio gydag aelod ffyddlon a gweithgar o'r Tîm, sef Teleri Jones o Greigiau. Dechreuodd Teleri Jones weithio gyda Mudiad Meithrin fel Swyddog Datblygu yn Ionawr 2008 yn Rhondda Taf . Yn dilyn ail strwythuro aeth Teleri i weithio yn ardaloedd Casnewydd, Torfaen, Caerffili a Mynwy.

Dywedodd Ann Angell, Rheolwr Talaith y De Ddwyrain "doeddwn i ddim yn meddwl baswn yn gweld y dydd yn dod pan fyddai Teleri yn ein gadael, ond yn anffodus fe ddaeth!. Mae gan nifer o ardaloedd De Cymru ddyled enfawr i Teleri am ei gwaith cydwybodol ac egnïol dros y cylchoedd meithrin a'r iaith Gymraeg. Bydd yn rhyfedd hebddi. Mae'n golled enfawr i ni fel Mudiad"

Mae Teleri yn dechrau cyfnod newydd yn ei bywyd wrth iddi agor Caffi Cymreig yn yr Hen Lyfrgell Y Porth.

Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

IOP Institute of Physics In Wales — Sefydliad Ffiseg Yng Nghymru

Nos Lun, 18fed o Fawrth 2019 cawsom ni noson ryfeddol wrth i ni gynnal cystadleuaeth cyflwyniad gwyddonol i bobl ifanc yn y blynyddoedd olaf ysgol Uwchradd. Dyma'r tro cyntaf i ni gynnal cystadleuaeth o'r fath a rhaid diolch i'r sefydliad Ffiseg am gyfrannu at y gwobrau hael. Cyn sôn am y cystadleuwyr hoffwn ddiolch i'r beirniaid sef Yr Athro Arwyn Tomos Jones o Ysgol Fferylliaeth Prifysgol Caerdydd, Dr Eirian Dafydd gynt o Ysgol y Cymer a Hefin Jones o Ysgol y Biowyddorau a Deon y Coleg Cymraeg Cenedlaethol - roedd gwaith anodd iawn o'u blaenau!

Yn gyntaf yn y drefn oedd Ffion a Meg yn siarad am Olyniaeth Ecolegol ac roeddent wedi paratoi cyflwyniad caboledig oedd yn cynnwys ffilm wedi animeiddio a greuwyd yn arbennig i'r gystadleuaeth. Nesaf daeth Sion oedd yn siarad am effeithiau microbau yn y coluddyn ar yr ymennydd—roedd e hefyd wedi paratoi cyflwyniad trawiadol oedd yn dod a'i destun yn fyw. Yna siaradodd Casi yn hyderus am yr effaith Plasebo. Nesaf daeth Ffion i sôn am 'Biomimicry' lle mae anifeiliaid yn esgus bod yn rai gwahanol ac roedd lluniau gwych ganddi i egluro ei thestun.

Aethon i fyd mathemateg gyda Rhys yn sôn am Rhifau Trosgynnol a defnyddiodd y bwrdd gwyn i ddangos ei frwdfrydedd amlwg am syniadau y mathemategydd Georg Cantor. Ac i gau, cawsom gyflwyniad ysgytwol gan Ffion arall eto yn sôn am 'Y Cymry a'u Cyffuriau' lle disgrifiodd effaith gwahanol gyffuriau ar yr ymennydd ynghyd a'i effeithiau trychinebus ar gymdeithas. Llwyddodd y beirniaid i benderfynu ar enillwyr ond roedd hi'n anodd dros ben! Yn y pen draw daeth Ffion a Meg a'i ffilm wedi animeiddio yn gyntaf, daeth Sion a Ffion (Biomimicry) yn gydradd ail, a daeth Rhys, Casi a Ffion (cyffuriau) yn gydradd trydydd. Roedd y noson yn lwyddiant mawr, ond os cawn nifer tebyg o gystadleuwyr tro nesaf, bydd angen rhagbrofion!

Te P'nawn Merched y Wawr yn y Berllan, Radyr.
Yn ôl pob sôn roedd yn b'nawn llwyddiannus! Diolch o galon i Dawn, Wendy, Kate ac Andrew am y paratoi gofalus. Diolch i bawb a gefnogodd y fenter.

LLANTRISANT GROESFAEN MEISGYN

Gohebwyr y mis: Gwilym ac Eleri Huws

Minis Llantrisant
Ar benwythnos 23/24 Chwefror, bu nifer o dimau rygbi Minis Llantrisant yn cymryd rhan yng Ngŵyl Rygbi Dewi Sant yng Nghlwb Rygbi Cymru Llundain. Chwaraewyd nifer o gemau ar y bore Sul gan blant rhwng 6 a 12 mlwydd oed. Roedd yn gyfle i'r plant fwynhau ac i brofi eu hunain yn erbyn gwahanol dimau o Gymru a Lloegr. Cafwyd cryn lwyddiant, a llawer o hwyl yn ogystal, yn enwedig ar y prynhawn Sadwrn tra'n gwylio'r gêm fawr rhwng Cymru a Lloegr ar sgriniau mawr y clwb rygbi.

Côr Tadau Trisant
Ar 8 Chwefror cynhaliodd Côr Tadau Trisant noson o ddiddanwch yng Nghanolfan Garth Olwg. Noson wedi ei threfnu gan Gymdeithas Gymraeg Llantrisant oedd hon, gyda'r elw'n mynd i gefnogi Elusen Crohn's. Hwn oedd y tro cyntaf i'r côr berfformio yn Garth Olwg, a'r tro cyntaf hefyd i'r aelodau gynnal cyngerdd fel y prif artistiaid. Fel rhan o'r rhaglen cafwyd unawdau gan ddau aelod o'r côr, sef Tim Edwards a Iestyn Morris, ac unawdau hefyd gan y gantores ifanc Celyn Lewis, sy'n ddisgybl yn Ysgol Llanhari ac yn ferch i un o'r aelodau.

Canolfan Newydd
Ers rhai blynyddoedd bellach, mae golwg anniben iawn ar yr hen lys ynadon a'r tir o'i amgylch gyferbyn â'r orsaf fysiau yn Nhonysguboriau. Bu'r safle ar y farchnad am gyfnod maith, ond yn ddiweddar fe'i gwerthwyd i Highadmits Projects, Beddau – cwmni a sefydlwyd yn 1993 ac sy'n arbenigo mewn paratoi cynlluniau trydanol a mecanyddol ar gyfer cwmnïau masnachol, diwydiannau a sefydliadau cyhoeddus ledled Cymru a Lloegr. Eisoes mae gwaith ar droed i addasu'r adeilad yn bencadlys newydd i'r cwmni. Deallwn hefyd y byddant yn tirlunio rhan flaen y safle ac yn atgyweirio'r maes parcio cyhoeddus ar bwys yr adeilad. Gan fod cynllunio goleuadau a chamerâu diogelwch ar gyfer meysydd parcio yn un o'r gwasanaethau a gynigir ganddynt, ni fydd angen gwahodd tendrau i wneud y gwaith angenrheidiol hwn i'r maes parcio ar ei newydd wedd! Fel cwmni lleol sy'n cynnig nifer o brentisiaethau gwerthfawr i bobl ifanc, dymunwn y gorau iddynt wrth baratoi i symud i'w canolfan newydd. Bydd trigolion Tonysguboriau hefyd yn sicr o groesawu'r gwelliannau i olwg y safle.

Diwrnod Gwybodaeth
Yn rhifyn mis Mawrth o *Tafod Elái* adroddwyd fod rhan olaf y gwaith o adnewyddu Neuadd y Dref Llantrisant yn ganolfan treftadaeth ar fin cael ei gwblhau, gyda gobaith o'i agor yn swyddogol cyn diwedd Awst. Ond cyn hynny bydd cyfle i aelodau'r cyhoedd ddysgu rhagor am y cynllun a'r rhaglen o weithgareddau y gobeithir eu cynnal yno mewn 'Diwrnod Gwybodaeth' sydd i'w gynnal yn Neuadd y Plwyf rhwng 10 y bore a 4 y pnawn ddydd Sadwrn 13 Ebrill. Bydd cyfle yno i weld cynllun mewnol y ganolfan, megis yr arddangosfeydd, ynghyd â rhai o'r cyflwyniadau rhyngweithiol a'r hen arteffactau gaiff eu harddangos. Hefyd, cynigir cyfle i ymweld â Neuadd y Dref ei hun gan fod y gwaith atgyweirio ar fin cael ei gwblhau.

Merched y Wawr
Mae Cangen Tonysguboriau yn estyn croeso i bawb (dynion hefyd!) i'w cyfarfod ar nos Fercher 10 Ebrill yng Nghanolfan Capel y Tabernacl, Efail Isaf, am 7.30 pryd fydd Gwenno Rees yn rhannu ei phrofiadau o'r flwyddyn a dreuliodd yn ddiweddar ym Mhatagonia.

Maenordy Meisgyn a'r Eisteddfod
Pan gyhoeddwyd mai yn Rhondda Cynon Taf y cynhelir Eisteddfod Genedlaethol 2022, fe'm hatgoffwyd o'r cysylltiad pwysig rhwng ymweliadau'r sefydliad hwnnw â'r ardal yn y gorffennol gyda teulu'r Williams, Maenordy Meisgyn. Mae'r rhan allweddol a chwaraewyd gan David Williams (Alaw Goch) i ddenu'r eisteddfod genedlaethol fodern gyntaf i Aberdâr yn 1861 yn weddol hysbys. Rai blynyddoedd cyn yr eisteddfod honno, roedd wedi defnyddio peth o'i gyfoeth fel diwydiannwyr llwyddiannus i brynu ystâd a chodi cartref newydd i'w deulu lle saif gwesty Miskin Manor heddiw. Pan fu farw yn 1863, etifeddwyd y maenordy gan ei fab Gwilym Williams, ac yntau ond yn 25 mlwydd oed ar y pryd. Cafodd Gwilym yrfa ddisglair ym myd y gyfraith, gan gynnwys gwasanaethu am 21 mlynedd fel Barnwr ar Lysoedd Barn Sir Forgannwg.

Roedd y Barnwr Gwilym Williams, fel ei dad o'i flaen, yn gefnogwr brwd i'r iaith a'r diwylliant Cymraeg ac felly roedd yn naturiol iddo chwarae rhan flaenllaw pan wahoddwyd yr Eisteddfod Genedlaethol i Bontypridd yn 1893 – nid yn unig fel Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith, ond hefyd fel un o'i phrif noddwyr. Ond ni allai neb fod wedi rhagweld y byddai ei gyfraniad yn ystod seremoni'r cadeirio yn ei droi'n arwr cenedlaethol.

Yn *Baner ac Amserau Cymru,* y *Western Mail* a sawl papur lleol yn dilyn wythnos yr eisteddfod, helynt seremoni'r cadeirio gipiodd brif sylw'r gohebwyr. Dyma grynodeb o'r hyn ddigwyddodd: roedd tyrfa o ryw 14,000 wedi ymgynnull yn y babell anferth i wylio'r seremoni. Ymhlith yr osgordd a ddringodd i'r llwyfan roedd y tri beirniad, sef Gwilym Cowlyd, Dyfed a Pedrog. Yn anffodus, nid oedd y tri'n gytûn yn eu dyfarniad. Dymunai Dyfed a Pedrog gadeirio awdl 'Obed-Edom', ond cerdd arall âi â bryd Gwilym Cowlyd. Nid yw anghytundeb

ymhlith beirniaid yn anghyffredin y dyddiau hyn, ac mae'r *Cyfansoddiadau* yn rhoi llwyfan teg i bob beirniad leisio barn bersonol. Roedd Gwilym Cowlyd, fodd bynnag, yn benderfynol nid yn unig o draethu ei feirniadaeth, ond hefyd i geisio gwyrdroi dyfarniad y mwyafrif. Ond wrth iddo anelu at flaen y llwyfan, camodd y Barnwr Gwilym Williams ymlaen i'w rwystro rhag annerch y dorf. Safai'r ddau yn wynebu ei gilydd heb ildio modfedd, fel dau hen baffiwr. Clywodd y rhai a eisteddai yn y rhesi blaen y Barnwr yn gorchymyn Gwilym Cowlyd gyda'r geiriau, 'Myfi sydd mewn awdurdod yma heddiw, a rhaid i chwi ufuddhau, syr'.

Wrth i'r dorf synhwyro bod anghydfod ar y llwyfan, tawelodd pawb i glustfeinio. Ar waethaf ymbilio taer y Barnwr, llwyddodd Gwilym Cowlyd i ddatgan wrth y gynulleidfa, 'Gwaherddir i mi roddi fy meirniadaeth. Deuthum yma yr holl ffordd o Wynedd i wneud hynny, ac ni chaniateir i mi siarad.' Parhaodd y gwrthdaro geiriol am rai munudau eto nes i'r Barnwr egluro i bawb beth oedd y drefn i fod, sef: 'fel mater o gyfraith a chyfiawnder, nid oes hawl gan y dyn hwn, yn y lleiafrif, i roddi ei feirniadaeth yma'. Pan ddeallwyd esboniad y Barnwr, derbyniodd fonllefau o gefnogaeth. Rhoddodd Gwilym Cowlyd un cynnig arall arni, ond meddai'r Barnwr mewn llais awdurdodol: 'Dim un gair, syr'. Unwaith yn rhagor, ymateb y dorf oedd ei gymeradwyo'n frwdfrydig. O'r diwedd perswadiwyd Gwilym Cowlyd i symud o'r neilltu ac aeth y seremoni yn ei blaen.

Yn dilyn y feirniadaeth, cyhoeddwyd mai'r Parchedig J. Ceulanydd Williams, Maesteg, oedd awdur yr awdl fuddugol ar y testun 'Pulpud Cymru', ac aed ymlaen i'w gadeirio. Daeth y seremoni i ben gydag arwisgo'r bardd buddugol gan neb llai nag Emma E. Williams YH, Miskin Manor, a dderbyniodd gymeradwyaeth mor frwd â'i gŵr yn gynharach. Anodd dychymygu beth fyddai tynged Gwilym Cowlyd ac enw da'r eisteddfod y pnawn hwnnw o Awst oni bai am ymyrraeth amserol Gwilym Williams; wrth dawelu'r bardd a'r llyfrwerthwr 'styfnig o Ddyffryn Conwy, manteisiodd yn llawn ar ei brofiad eang o ddelio â drwgweithredwyr mwyaf cwerylgar Sir Forgannwg.

Gohebydd mis Ebrill fydd Awen Mai Evans (Awen.Evans@assembly.wales). Dylid anfon deunydd ati erbyn 20 Ebrill.

EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

Gwerthiant
Trefnwyd gwerthiant nwyddau llwyddiannus yn Neuadd y Pentref fore Sadwrn, Mawrth 23ain. Bydd elw'r bore'n cael ei drosglwyddo i gronfa'r Bwthyn.

Menter Newydd
Dymunwn yn dda i Charlotte a Paul Lloyd sydd wedi newid byd yn ddiweddar ac wedi agor busnes gwely a brecwast yn Sir Benfro. Mae Charlotte wedi breuddwydio am agor gwesty ers tro ac erbyn hyn mae'r freuddwyd wedi ei wireddu gyda'r ddau wedi agor Tŷ'r Ffynnon ym Mhenalun (Penally) yn Sir Benfro. Merch Joan Smith a'r diweddar Ian yw Charlotte ac yn gyn-ddisgybl yn Ysgol Gymraeg Garth Olwg ac Ysgol Gyfun Llanhari. Pob hwyl i chi eich dau gyda'r fenter newydd.

Côr yr Einion
Bydd Côr yr Einion yn cynnal cyngerdd yng Nghapel y Tabernacl nos Iau, Ebrill 4ydd am 7yr hwyr. Bydd disgyblion Ysgol Gynradd ac Ysgol Gyfun Garth Olwg yn ymuno i berfformio yn y cyngerdd.

Mewn cyfarfod yn ddiweddar dewiswyd swyddogion ar gyfer y tymor nesaf. Etholwyd Eluned Davies Scott yn gadeirydd, Siân Jones yn is-ysgrifennydd, Janet Rowlands yn drysorydd a Gaynor Evans yn llyfrgellydd. Diolchodd Eifiona, y Cadeirydd presennol, i bawb o'r Pwyllgor ac i Siân Griffiths a Siân Elin am eu gwaith a'u teyrngarwch i'r Côr.

Y Tabernacl
Diolch
Mae yna dîm o bedwar gwirfoddolwr wedi bod yn hynod o brysur yn ystod misoedd y gaeaf yn clirio, tocio a chymhennu'r fynwent a rhandir Y tabernacl. Maent wedi rhoi wythnosau o'u hamser i gyflawni'r gwaith. Diolch o galon i Emlyn Penny Jones, Mike West, Edwyn Evans a John Llywelyn Thomas.

Elusennau
Yr elusennau a gefnogir eleni gan Y tabernacl fydd Gofalwyr Ifanc Rhondda Cynon Taf, Adref, Ysgol Tŷ Coch, Cymorth i Ferched Cymru a CRICA. Mae pedair o'r elusennau yma'n lleol ac yn gwerthfawrogi'n fawr gefnogaeth yr aelodau. Mae CRICA yn ymchwilio i Glefyd Crohn ac yn cefnogi plant a phobl ifanc sy'n dioddef o'r cyflwr. Byddwn hefyd yn cefnogi Cymorth Cristnogol ac Apêl Madagascar yn ystod y flwyddyn yn ogystal â chasglu dillad a nwyddau i Adref, Nantgwyn a Cwtch.

Ysgol Gynradd Garth Olwg

Radio Cymru
Diolch i Carys ac Awen-Haf am siarad ar Radio Cymru am ddiwrnod y llyfr yn ddiweddar.

'Doniolis'
Daeth gwmni 'Doniolis' i berfformio i blant yr ysgol gyfan. Mwynheuodd y plant yn fawr iawn!

Rygbi
Pob hwyl i Ioan Leyshon wrth iddo gynrychioli ysgolion Pontypridd mewn gêm gynderfynol ar ddiwedd y mis.

Eisteddfod
Llongyfarchiadau mawr i bawb a fu'n cystadlu yn yr Eisteddfod Sir. Cawsom 3 cyntaf, 5 ail ac 1 trydydd! Da iawn chi!

Cymdeithas Edward Llwyd

Un peth yw gyrru'n hamddenol o gwmpas ein gwlad a gwerthfawrogi golygfeydd arbennig ond mae llawer mwy i'w weld os dach chi'n penderfynu mynd ar droed. Dw i'n cael y profiad yma pob wythnos ac, yn well byth dw i'n mwynhau cwmni diddorol a llond diwrnod o siarad yr iaith. Un o'n teithiau diweddar oedd crwydro ar grib Allt yr Esgair ac edrych i lawr ar Dalybont tu draw i'r afon Wysg a oedd yn troelli ei ffordd yn hamddenol tuag at y môr a Chas-gwent.

Fel un sydd yn hoff iawn o grwydro efo camera dw i'n ymwybodol bod pob diwrnod yn cynnig golygfa wahanol yn yr un lle. Dyma sut oedd hi y tro yma. Gan ein bod ni mor uchel roedd y gwynt yn chwythu a'n llygaid yn dyfrio ond gan ein bod ni wedi gwisgo'n addas roedden ni'n glyd tu fewn. Digon clyd i weld y posibiliadau ar ddiwrnod clir a heulog. Beth bynnag yw'r tywydd maen braf bod yn yr awyr iach efo ffrindiau. Mi wnaeth y glaw gadw draw tan i ni fod yn ôl yn y ceir. Am adroddiad llawn am y daith ewch at
http://www.gydangilydd.cymru/alltyresgair.htm

Yma yn y de bydd ein teithiau rhwng canol mis Ebrill tan ganol mis Mai yn mynd â ni i ardal Caerffili, Efailwen, Cas-gwent, Y Fenni a Wisemansbridge. Croeso i chi ymuno â ni, mae manylion llawn ar ein gwefan
http://cymdeithasedwardllwyd.cymru/gweithgareddaur-de/

Merched y Tabernacl
Bu nifer dda o aelodau Merched y Tabernacl yn dathlu dydd ein Nawddsant eleni drwy giniawa yn Yr Arth yn y Bontfaen ar ddydd Mercher, Mawrth 6ed. Mwynhawyd cinio blasus iawn a chawson ddigon o gyfle i sgwrsio a chymdeithasu. Diolch o galon i Beti am drefnu'r achlysur. Ein cyfarfod nesaf fydd ymweliad â'r Amgueddfa Genedlaethol i weld arddangosfa o waith Kyffin Williams ddydd Iau, Ebrill 11eg am 11yb.

Trefn yr Oedfaon ar gyfer Mis Ebrill
Ebrill 7fed Oedfa Gymun gyda Cynan Llwyd
Ebrill 14eg Y Parchedig Aled Edwards
Ebrill 21ain Oedfa deuluol o dan ofal Heulyn a Catrin
Ebrill 28ain Geraint a Caroline Rees.

Dathlu Daucanmlwyddiant

Bydd rhai o ddarnau mwyaf cain crochendy Nantgarw yn dychwelyd i'r man lle'u crewyd 200 mlynedd yn ôl.

Mae cynlluniau ar y gweill i gynnal arddangosfa o Grochenwaith Nantgarw yn y Crochendy o'r 13eg Gorffennaf hyd 28ed Medi. Bydd yr arddangosfa yn cynnwys eitemau ar fenthyg o Amgueddfa Cymru yngyd â darnau o gasgliadau preifat a chyhoeddus eraill. Nid yw'r rhan fwyaf o'r eitemau wedi eu harddangos o'r blaen ac fe ddaeth yn bosib drwy Rhaglen Benthyg Weston a Chronfa'r Celfyddydau sy'n galluogi amgueddfeydd bach a rhanbarthol i fenthyg gwaith o gasgliadau cenedlaethol.

Ddydd Llun Calan Mai, y 6ed o Fai, cynhelir Ffair Antiques. Un o ffeiriau un dydd pwysicaf y rhanbarth. Bydd dewis eang o grochenwaith Nantgarw, Abertawe a Llanelli yn ogystal â lluniau a thrysorau eraill. Mynediad £2.
http://nantgarwchinaworksmuseum.co.uk/cy/

PENTYRCH

Gohebydd Lleol:
Marian Wynne

Clwb y Dwrlyn

'Walia' oedd thema sgwrs Ffion Dafis yng nghyfarfod Cylch Cadwgan ym mis Mawrth. Gyda llun y wal wen, sef cefnlen y ddrama "Anweledig," y tu ôl iddi, cychwynnodd Ffion drwy sôn am y cefndir i'w llyfr ffraeth "Syllu ar Walia" wrth iddi drafod pynciau megis galar, problem alcohol a natur perthynas rhwng unigolion. Er nad yn hunangofiant eglurodd mai ei nod oedd bod mor onest ac agored â phosib. Bu'n brofiad emosiynol gwrando ar Ffion yn darllen am golli ei mam i ganser gan gyfleu'r creulondeb a'r profiadau ingol. Dyma ddarlleniad a gyffyrddodd y gynulleidfa i'r byw.

Trodd wedyn at y gyfres deledu a gyflwynodd yn ddiweddar yn dwyn y teitl Y Wal. Pwrpas y rhaglen oedd darlunio ffiniau dadleuol a oedd wedi eu codi i rannu pobloedd oddi wrth ei gilydd ar draws y byd. Pwysleisiodd mai ei hymateb personol i sefyllfaoedd cythryblus a dirdynnol oedd hanfod y rhaglenni yn hytrach na chyflwyno gohebiaeth ddiduedd. Cafwyd portreadau o rai o'r unigolion a oedd yn gorfod dygymod â byw yng nghysgod y welydd yma gan nodi enghreifftiau lle'r oedd cariad brawdol wedi brigo ar waethaf casineb rhwng y ddwy ochr. Dywedwyd wrthi gan ddau a fu'n elynion bod eu dagrau yr un lliw, boed yn Balestiniad neu yn Iddew.

Wal yw cefnlen y ddrama un cymeriad, Anweledig sy'n cael ei pherfformio led-led Cymru gan Ffion ar hyn o bryd. Yn ddrama am iselder ysbryd menyw ganol oed, Glenda, tynnodd Ffion sylw at y modd yr oedd y perfformiadau wedi ennyn trafodaeth â phobl yn dangos eu parodrwydd i rannu eu profiad a'u gofid. Yn ei barn roedd hyn yn adlewyrchu pwysigrwydd cymdeithasol y theatr heddiw gan mai rhywbeth cudd yw salwch meddwl i lawer.

Yn olaf, ar nodyn mwy ysgafn, cyfeiriodd at y ffaith bod ei phartner yn 'waliwr'. Yn sgil hyn roedd wedi cael ei chyflwyno i harddwch Meirionydd, ei thirwedd a'r cyfle i werthfawrogi byd natur wrth deithio yn y "camper van".

Wrth weu thema'r wal yn gelfydd drwy ei sgwrs o'r llon i'r lleddf, cafwyd noson i'w thrysori ac roedd y gymeradwyaeth ar y diwedd yn cyfleu cymaint y mwynhad a gafwyd.

Cyflwyno Sampler i Don, Mab y Garth

Fe gofiwch i Glwb y Dwrlyn gael noson i'w chofio yng nghwmni Don Llywelyn ym mis Tachwedd 2018, gyda'r gŵr ei hun yn ei elfen yn ail-fyw atgofion plentyndod ym Mhentyrch, ail-gyflwyno i ni gymeriadau'r fro yn eu tristwch a'u hafiaith, a'n hatgoffa o bwysigrwydd y Gymraeg yn ardal ei febyd.

Wedi'r cyfarfod ysgogwyd Marian Evans (Radur) i ymhel ag un o'i hoff ddifyrion, ac fe grewyd ganddi sampler arbennig o'r tribannau diolch a gyflwynwyd ar lafar i Don ar ddiwedd y noson.



Parti Piws Mwyaf y Byd i Ddathlu Pen-blwydd Dewin a Doti yn 10 oed

Cynhelir llu o ddigwyddiadau i ddathlu pen-blwydd Dewin a Doti yn 10 oed eleni. Cymeriadau unigryw Mudiad Meithrin yw Dewin a Doti ac fe'u lansiwyd yn Eisteddfod Genedlaethol y Bala yn 2009. Mae Dewin a Doti yn byw yn y Balalŵn fawr yn uchel yn yr awyr, ac maent wrth eu boddau'n clywed plant bach yn siarad Cymraeg ac yn gwibio i lawr o'r Balalŵn i chwarae gyda'r plant bach yn y Cylchoedd Meithrin i'w helpu a'u hybu i siarad Cymraeg.

Y dathliad cyntaf fydd cynnal **Parti Piws Mwyaf y Byd** Ddydd Mercher 10fed o Ebrill i ddathlu pen-blwydd arbennig Dewin a Doti. Ond nid parti arferol fydd hwn! Bydd **Parti Piws Mwyaf y Byd** yn anelu at gael 10,000 o bobl yn cymryd rhan trwy wisgo unrhyw ddilledyn piws ar y diwrnod. Felly bydd y Mudiad yn annog yr holl blant a'r staff yn y grwpiau Cymraeg i Blant, Cylchoedd Ti a Fi, Cylchoedd Meithrin a Meithrinfeydd Dydd, yn ogystal ag ysgolion Cymru, i gymryd rhan er mwyn cyrraedd y targed o 10,000 wedi cymryd rhan yn y dathliadau!

Cynhelir nifer o ddigwyddiadau eraill i ddathlu pen-blwydd Dewin a Doti yn ystod yr haf gan gynnwys Y Pasiant Meithrin ar y thema 'Pen-blwydd Dewin a Doti' a berfformir gan blant y cylchoedd yn ardal Caerdydd a'r fro ar lwyfan Pafiliwn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ar 1 Mehefin ym Mae Caerdydd, a Phasiant Meithrin ar y thema 'Dathlu' ar lwyfan pafiliwn Eisteddfod Genedlaethol Llanrwst ar fore Ddydd Mercher 7 Awst.

Bydd **Heini** (cymeriad hoffus sydd â rhaglen ar Cyw), hefyd yn perfformio sioe newydd sbon o'r enw 'Dathlu gyda Dewin a Doti' i blant bach Cymru. Bydd y sioe yn cael ei pherfformio mewn canolfannau ar hyd a lled Cymru fel rhan o daith **Gŵyl Dewin a Doti** a gynhelir gan Mudiad Meithrin rhwng 10 a 29 Mehefin.

Yn y llun gwelir Don, a'i briod, Avril, yn edmygu'r gwaith gorffenedig a gyflwynwyd iddynt yn ddiweddar ar ran Clwb y Dwrlyn. Mae gwên y ddau yn mynegi eu gwerthfawrogiad am y rhodd arbennig yma.

Ysgol Pont-Sion-Norton

Dydd y Llyfr
Dathlwyd dydd y llyfr a dydd trwynau coch yr un diwrnod gyda phlant yr Ysgol wedi eu gwisgo fel cymeriadau o lyfrau gyda thrwynau coch!

#Siarter Iaith
Diolch i'r Urdd am ddod i'r ysgol i weithio gyda'n Cymry Cŵl ni a phwyllgor Ysgol Coedpenmaen i ddysgu gemau iard er mwyn 'Chwarae yn Gymraeg'.

Cadeirio
Fel rhan o'n dathliadau Gŵyl Ddewi cafwyd cyngerdd, gwobrwyo straeon a cherddi a chadeirio. Llongyfarchiadau i Ifan Harris am ennill y gadair eleni!

Sw Bryste
Aeth yr adeilad canol i Sw Bryste i chwilio am anifeiliaid o gyfandiroedd a chefnforoedd gwahanol. Cafodd pawb ddiwrnod gwych yn arsylwi'r anifeiliaid.

Parti Pasg
Mi fydd ein Parti Pasg blynyddol yn digwydd ar Ebrill y 5ed. Dewch yn llu!

Bethlehem Gwaelod-y-garth

Trefn yr Oedfaon (ar y Sul am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol) **:**
Mis Ebrill 2019:
7 – Oedfa dan ofal y Parchedig R.O. Griffith (Cymun)
14. - Oedfa dan ofal Delwyn Siôn (Cwrdd Eglwys)
21. - Oedfa Sul y Pasg dan ofal y Parchedigion Ifan a/neu Catrin Roberts
28. - Oedfa dan ofal y Parchedig Kevin Davies
Mis Mai 2019:
5. – Oedfa dan ofal y Parchedig Robin Samuel
12. – Oedfa Cymorth Cristnogol
19. - Oedfa dan ofal y Parchedig Lona Roberts
26. - Oedfa dan ofal y Parchedig Aled Edwards

ooooOOOOoooo

Maddeued felly fy mod i mor hy â son am y Nadolig, a hynny cyn bod hyd yn oed y Pasg wedi cyrraedd eleni.

Nid son am drimings a choeden a chracyrs a phethau tebyg, er hwyrach bod Siôn Corn yn perthyn i'r stori yn rhywle, neu o leiaf ei briod waith o gyrchu anrhegion ar draws sawl cyfandir i gyrraedd yn saff erbyn bore'r Nadolig.

Dau gyfaill o Nebo, Dic, fy nhad, a Bob, ei was priodas, ydi'r llinyn cyswllt y tro yma.

A'r Nebo hwnnw wrth reswm yn swatio'n gynnil yng nghesail Cwm Dulyn, uwchben Dyffryn Nantlle, nid y lle arall hwnnw tu draw i'r Iorddonen, lle y bu Moses farw!

'Roedd y ddau wedi gwasanaethu yn lifrai byddin Prydain yn ystod yr Ail Ryfel Byd, wedi goroesi, ac yn deisyf gweld heddwch yn teyrnasu o hynny 'mlaen.

Dewis fy nhad oedd dychwelyd i'w fro enedigol wedi treulio blynyddoedd yn Llundain yn gweithio. 'Roedd traed Bob yn fwy anturus a'r penderfyniad ym mhen hir a hwyr oedd ymfudo, y fo a'i deulu, mor bell ag y gallent fynd o olwg y "*dyffryn diwydiannol a dull y byd a wn*".

Mae gen i gof plentyn 9 neu 10 mlwydd oed am y ffarwelio wrth ddrws y tŷ, a'r deigryn ar wyneb y naill gyfaill a'r llall wrth iddynt hwyrach synhwyro na fyddent byth eto yn gweld ei gilydd.

Ond nid oedd pellter yn golygu colli cyswllt serch hynny, ac 'roedd y ddau yn llythyru a'i gilydd tros y blynyddoedd o alltudiaeth.

Yn flynyddol ym mis Medi byddai llythyr penodol (hir ddisgwyliedig fel yr a'i blynyddoedd heibio) yn cyrraedd yn nodi bod 'na anrheg ar ei ffordd o bellafoedd byd i Gymru fach, ac y byddai, gobeithio, yn cyrraedd mewn da bryd at y Nadolig.

Hir y disgwyl iddo gyrraedd pen y daith, ond byddai bob amser yn cyrraedd cyn yr Ŵyl, wedi tramwyo moroedd prysuraf y byd am dri mis a mwy.

Ac o'r pleser o'r diwedd o dderbyn bocs trwm wrth ddrws y ffrynt, a chael ei agor a thynnu tin saith bwys o fêl gorau Seland Newydd ohono. Y mêl mwyaf blasus a brofais erioed, fel cyffug ar dafod, ac yn eli ar gyfer pob briw.

Welais i ddim byd tebyg iddo, na chynt, nac erioed wedi hynny!

Blas y mêl hwnnw ddaeth i'm cof wrth glywed am y gyflafan yn y ddau fosg yn Christchuch yng nghanol mis Mawrth eleni.

Yno, wedi'r cwbl, y bu i Bob a'i deulu ymgartrefu wedi'r mudo, wedi mynd fel llawer arall ar ei ôl, i geisio gwell byd mewn gwlad oedd "*yn llifeirio o laeth a mêl*.

A'r ddinas wedi dioddef nifer o ddaeargrynfeydd sylweddol eu maint ers Medi 2010 - fe gollwyd bywydau a dinistrio adeiladau, gan gynnwys yr eglwys gadeiriol, yn sgil hyn - ein dyhead ydi y bydd yr un cyd-ddyheu am gyfiawnder a heddwch a berthynai i nhad a Bob bron i 75 mlynedd yn ôl fodoli ymhlith cymdeithas aml-ethnig, aml-ffydd y ddinas i'r dyfodol.

ooooOOOOoooo

Cofiwch y cynhelir Ysgol Sul i'r plant bob Sul heblaw am wyliau Ysgol a hynny i gyd fynd ac amser yr oedfa am 10:30 a.m.

Cofiwch hefyd am wefan Bethlehem sydd i'w chanfod ar www.bethlehem.cymru

Ymwelwch yn gyson a'r safle i chwi gael y newyddion diweddaraf am hynt a helynt yr eglwys a'i phobl.

Hefyd mae gan Bethlehem gyfri trydar (twitter). Dilynwch ni ar @gwebethlehem.

Celf y Pasg

Diolch i Catrin Hanks-Doyle am ddod i weithio ar brosiect celf y Pasg gyda blwyddyn 2. Bydd yn rhaid i'r plant chwilio am y pethau maent wedi eu creu mewn helfa Pasg ym Mharc Ynys Angharad cyn bo hir!

WCW
Llongyfarchiadau mawr i'r plant am ennill cystadleuaeth Wcw am dynnu llun anifeiliaid lliwgar! Diolch Wcw am yr holl wobrau hyfryd!

Castell Coch
Aeth y dosbarth Meithrin ar ymweliad â Chastell Coch ym mis Mawrth. Roedd y plant wrth eu boddau yn astudio'r castell.

@Bristol
Fel rhan o'r gwaith Gwyddoniaeth, aeth criw bach o flwyddyn 6 ar drip i Fryste gydag ysgolion cynradd y clwstwr. Roedd yn gyfle iddynt ymchwilio a dysgu mewn ffordd hwyl.

tafod elái

GOLYGYDD
Penri Williams
029 20890040

CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
029 20890979

Erthyglau a straeon
ar gyfer rhifyn mis Mai
i gyrraedd erbyn
3 Mai 2019

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
e-bost
pentyrch@tafelai.com

Tafod Elái ar y wê
http://www.tafelai.com

Argraffwyr:
Copyprint Wales
Trefforest
www.copyprintwales.co.uk

CYMRAEG

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro

Andrew Reeves

Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes

Ffoniwch

Andrew Reeves
01443 407442
neu
07956 024930

I gael pris am unrhyw waith addurno

CYLCH CADWGAN

Nos Wener 26 Ebrill
am 8.0yh
Ioan Kidd -
Yn siarad ar y testun
"Cysgodion Cam"
yn Festri Bethlehem,
Gwaelod y Garth
Cydnabyddir cefnogaeth
Llenyddiaeth Cymru

MERCHED Y WAWR
Cangen y Garth

Tweli Griffiths
"Yn ei chanol hi"

8yh Nos Fercher, 10 Ebrill
Y Ganolfan, Efail Isaf

Bore Coffi i'r dysgwyr
yng Nghaffi Leekes, Tonysguboriau, bob dydd Gwener am 11 y bore. Croeso cynnes i chi ymuno â'r criw.

MERCHED Y WAWR
Tonysguboriau

Ebrill 10fed

'Blwyddyn ym Mhatagonia'
Gwenno Rees

Rhagor o fanylion:
01443 223828

CANOLFAN SHALOM

Mae Canolfan Shalom ar agor yng Nghapel Salem Tonteg bob bore Sadwrn rhwng 11 a 1. Croeso cynnes i bawb sydd eisiau lle tawel am baned a sgwrs. Cysylltwch â'r Parch. Rosa Hunt ar 07807893373 neu revdrosa@gmail.com

CLWB Y DWRLYN

Noson yng nghwmni Gwenan Gibbard

8yh Nos Wener, 17 Mai
Clwb Rygbi Pentyrch
Cynabyddir cenfogaeth
Cynllun Noson Allan,
Cyngor y Celfyddydau Cymru

Ysgol Llantrisant

Dydd Gŵyl Dewi
Dyma luniau o Ddosbarth 2 a 10 yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi – ar y pedwerydd o Fawrth, ychydig yn hwyr oherwydd gwyliau hanner tymor! Yna ar y pumed o Fawrth daeth criw da iawn o rieni a ffrindiau atom i fwynhau prynhawn arbennig o'r enw "Coffi, Cymreictod a'r Côr". Fe gafodd y gynulleidfa wledd o ganu gan gôr yr ysgol, heb anghofio paned a phicen ar y maen!

Posau mathemategol
Ar yr 21ain a'r 22ain o Chwefror fe gafodd disgyblion CA2 gyfle i gymryd rhan mewn sesiynau datrys problemau mathemategol dan ofal y "Puzzle Company". Roedd pawb yn frwdfrydig iawn wrth fynd ati fel timau i gystadlu yn erbyn ei gilydd.

Eisteddfod Gylch
Dyma'r criw o unigolion aeth i gystadlu yn yr Eisteddfod Gylch yn Ysgol Llanhari ar y chweched o Fawrth. Llongyfarchiadau arbennig i Alana Lockett (unawd Blwyddyn 2 ac Iau), Mali Jen (unawd Blynyddoedd 3 a 4) Medi Adams a Tomos Prys Evans (deuawd dan 12 oed) fydd yn mynd mlaen i gynrychioli'r cylch yn yr Eisteddfod Sir. Bydd y parti unsain, y parti deulais a'r côr hefyd yn cystadlu yn yr Eisteddfod Sir. Pob lwc i bawb fydd yn cystadlu.

Gig Bronwen
Ar nos Lun yr 11eg o Fawrth, fe ddaeth tua 130 o ddisgyblion CA2 o ysgolion Dolau, Tonyrefail, Llanhari a Llantrisant at ei gilydd i fwynhau gig yng nghwmni Bronwen Lewis. Cafwyd noson hyfryd iawn yn gwrando ar Bronwen yn canu ac fe gafodd rhai o'r plant gyfle i ymuno â hi hefyd. Gobeithir trefnu gig tebyg y tymor nesaf.

Diwrnod y Llyfr
Eleni eto fe ddaeth pawb i'r ysgol wedi'u gwisgo fel cymeriadau o lyfrau, er mwyn dathlu Diwrnod y Llyfr, ar Fawrth y seithfed. Bu pawb yn cyflawni gweithgareddau amrywiol yn seiliedig ar eu hoff lyfrau yn ystod y dydd.

Gwersi Beicio
Mae disgyblion Blwyddyn 6 wedi bod yn derbyn gwersi beicio yn yr ysgol dros y bythefnos ddiwethaf. Byddant yn fwy diogel yn awr wrth fynd ar eu beiciau o gwmpas yr ardal. Da iawn blant!

Rygbi
Dyma'r tîm buddugol a fu'n chwarae yn erbyn Ysgol Dolau ar y seithfed o Fawrth. Llongyfarchiadau mawr i chi fechgyn!

"Ffit Cymru"
Fe ddaeth criw teledu i'r ysgol yn ddiweddar i ffilmio rhaglen "Ffit Cymru" gyda disgyblion y Cyfnod Sylfaen. Roedd yn brofiad cyffrous iawn i'r disgyblion – cofiwch wylio ar yr ail o Ebrill!

Mr Coleman
Diolch i Mr Coleman am ddod atom unwaith yn rhagor i rannu stori o'r Beibl, gyda holl blant yr ysgol. Cafodd wrandawiad astud, fel arfer! Ar yr un diwrnod buom yn dathlu Diwrnod Trwynau Coch. Llwyddom i godi'r swm anrhydeddus o £650 tuag at yr elusen. Diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd.

"Sesiwn Sul"
Ar y trydydd ar ddeg o Fawrth bu disgyblion Blwyddyn 6 yn ddigon ffodus i gael y cyfle i recordio'u rhaglen radio eu hunain, mewn prosiect arbennig dan ofal Menter Iaith Rhondda Cynon Taf. Pwrpas y gweithdy oedd codi ymwybyddiaeth y disgyblion o raglenni radio Cymraeg. Nid ydym yn gwybod pryd fydd "Sesiwn Sul" YGGG Llantrisant yn cael ei ddarlledu eto ond rydym yn edrych ymlaen at glywed rhaglen gyffrous a bywiog iawn!

Ysgol Dolau

Gymnasteg
Ar Fawrth 8fed, bu Lacey, Anya , Ioan, Ieuan a Ryan yn cystadlu i Forgannwg Ganol yng nghystadleuaeth Vault a Tumble. Daeth y bechgyn yn 3ydd yn y gystadleuaeth tîm a daeth Anya yn 3ydd yn y gystadleuaeth unigol i ferched. Daeth Ioan yn fuddugol yn y gystadleuaeth unigol i fechgyn. Canlyniadau gwych! Bydd Ioan yn cynrychioli Cymru yn y rownd nesaf.

Diwrnod y Llyfr
Ar y 7fed o Fawrth, cymerodd yr ysgol ran yn Diwrnod Cenedlaethol y Llyfr. Daeth y disgyblion i'r ysgol wedi gwisgo fel eu hoff cymeriadau a daethant a'u llyfrau gyda nhw. Roedd llu o weithgareddau iddynt wneud yn ystod y dydd i ddathlu byd hudolus y llyfrau.

Pythefnos Masnach Deg
Mae'r ysgol wedi bod yn brysur yn dysgu am Fasnach Deg trwy llawer o wahanol weithgareddau. Dyma rai o'r gweithgareddau bu'r disgyblion yn gwneud i ddysgu:
Blasu bananas a siocled Masnach Deg; siopa yn y Co-op i geisio dod o hyd i eitemau Masnach Deg; gwneud hufen iâ banana Masnach Deg; pwyso bananas Masnach Deg.

Eisteddfod Ysgol Uwchradd Pencoed
Bu blwyddyn 5 yr adran Saesneg yn ddigon ffodus i dderbyn gwahoddiad i fynychu eisteddfod Ysgol Pencoed. Cawson nhw amser bendigedig ac mae'r disgyblion yn diolch yn fawr am y gwahoddiad.

Science Day
Cafodd y disgyblion amser gwych yn dathlu byd gwyllt gwyddoniaeth ar ddydd Iau, Mawrth 14eg. Gweithiodd bob dosbarth o'r adran Iau gyda dosbarth o'r adran fabanod er mwyn gweithio ar wyddoniaeth cyffrous ac ymarferol.

Eisteddfod Ysgol
Yn anffodus, nid oedd modd cynnal ein eisteddfod ysgol ar ddydd GŵylDewi gan fod dydd ein nawddsant wedi cwympo yn ystod gwyliau'r hanner tymor. Serch hynny, cyn i bawb adael am wythnos o ymlacio a mwynhau ein tywydd Prydeinig, mwynheuodd y disgyblion ein dathliad yn gynnar. Roedd gwledd o ddawns, llefaru, canu, celf, ysgrifennu, llawysgrifen ac roedd llawer o ddathlu wrth i ddisgyblion gasglu gwobrau am ennill eu categorïau. Roedd y disgyblion yn edrych yn hyfryd yn ei gwisgoedd Cymraeg a chefnogon nhw eu cyfoedion ym mhob cystadleuaeth.

Eisteddfod Gylch
Cynhaliwyd yr eisteddfod gylch unwaith eto eleni yn Ysgol Llanhari ac roedd digon o gystadlu o Ysgol Dolau i weld ar y llwyfan. Casglodd y disgyblion wobrau am ddawns, canu a llefaru. Fe fydd llawer o'r disgyblion yn mynd ymlaen i gystadlu yn yr eisteddfod sir ym Mhafiliwn Porthcawl. Bydd Ysgol Dolau hefyd yn cystadlu yng nghystadleuaeth y Gân Actol am y tro cyntaf mewn blynyddoedd maith. Croeswch eich bysedd am berfformiad gwych a thaith i Fae Caerdydd am y gystadleuaeth genedlaethol a fydd yn digwydd yn ystod hanner tymor yr haf.

OPRA Cymru

Mae 2019 yn nodi 10 mlynedd ers sefydlu OPRA Cymru: unig gwmni opera Cymraeg y byd sy'n gweithredu o Flaenau Ffestiniog, yng nghanol Gwynedd.

Mae'r cwmni yn creu fersiynau Cymraeg o operâu clasurol, ac yn 2017 cynhyrchwyd opera newydd - gwaith newydd gan y cyfansoddwr o Ynys Môn, Gareth Glyn, a'r prifardd Mererid Hopwood, yn seiliedig ar y nofel enwog 'Wythnos yng Nghymru Fydd'.

Y gwanwyn hwn, mae'r cwmni yn cydweithio unwaith eto gyda Mererid Hopwood i greu cynhyrchiad Cymraeg o unig opera Beethoven, sef 'Fidelio'; stori dynes ddewr sy'n gwisgo amdani fel gwarchodwr carchar i geisio achub ei gŵr sydd wedi ei garcharu yno ar gam.

Ymhlith y cast mae'r soprano Catrin Aur a'r tenor Adam Gilbert, a grŵp o gantorion ifanc o Ogledd Cymru: Robin Gruffudd, Huw Ynyr, Thomas Niesser ac Elen Lloyd Roberts. Cyfeilir y perfformiadau gan gerddorfa siambr dan arweiniad Iwan Teifion Davies (o Sir Benfro), a byddant yn cynnwys nifer o gorau amatur.
Perfformiadau:
25/04/19 Theatr Bryn Terfel, Pontio. 27/04/19 Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth 30/04/19 Ysgol y Moelwyn, Blaenau Ffestiniog 02/05/19 Taliesin, Abertawe 04/05/19 Theatr Brycheiniog, Aberhonddu 07/05/19 Lyric, Caerfyrddin 09/05/19 Stiwt, Rhosllannerchrugog 11/05/19 Canolfan y Celfyddydau Memo, Barri

Perl o Nofel



Mae Gomer yn falch o gyhoeddi Perthyn, nofel newydd gan Sian Northey sy'n trafod perthynas anarferol mam a mab, Helen a John.

Mae gan Helen gyfrinach. Daw'r amser pan mae'n rhaid iddi rannu'r gyfrinach hon â'i mab.

Canlyniad eu cyfrinach yw bod yn rhaid iddynt symud i ran arall o'r wlad bob pymtheg mlynedd gan achosi newidiadau yn eu perthynas â'i gilydd.

Daw Helen i brofi cariad mewn sawl gwedd ac mae hi a'i theulu'n gorfod ymgodymu â'r gwahanu sydd ar y gorwel.
Perthyn yw trydedd nofel Sian Northey i wasg Gomer, yn dilyn Rhyd y Gro (2016) ac Yn y Tŷ Hwn (2011).

Mae Perthyn ar gael mewn siopau llyfrau ac ar-lein am £8.99.

Ysgol Castellau

Dosbarth Jac Do yn dathlu diwrnod Down syndrome yn gwisgo sanau od!

Mae Bwyddyn 3 wedi bod yn dysgu am y planedau ac wrth eu boddau yn creu modelu.

Yr 8fed o Fawrth, bu plant Blwyddyn 6 yn ysgol Llwyncrwn ar gyfer diwrnod Gwyddoniaeth. Roeddynt yn gweithio yn frwd gyda'u ffrindiau newydd.

Blwyddyn 5 a 6 yn Llyfrgell gymunedol y Beddau ar Ddiwrnod y Llyfr gydag Ysgol Gwaunmeisgyn.

Llongyfarchiadau i bawb a gystadlodd yn yr Eisteddfod Gylch yn y Parc a'r Dâr ar y 5ed o Fawrth.

Diwrnod y Llyfr

Roedd y disgyblion i gyd yn edrych yn wych wedi gwisgo fel cymeriadau o lyfrau Cymraeg ar Ddiwrnod y Llyfr.

Da iawn i'r Tîm Rygbi Merched am gynrychioli'r Ysgol yn y twrnament rygbi.

Yn ystod wythnos Gwyddoniaeth roedd Blwyddyn 4 wedi dilyn cynllun 'Mission X' gan Tim Peake i greu cynllun ymarfer corff i'r gofodwyr yn yr Orsaf Ofod Rhyngwladol.

Llongyfarchiadau enfawr i Mabon Thomas ar lwyddo i ennill gwregys du yn Shotokan Karate!

Cafwyd Eisteddfod Ysgol lwyddiannus iawn eleni gyda Seren yn cael ei chadeirio a llys Llwynau yn ennill yr Eisteddfod.

Daeth y frigâd dan i weld y Cyfnod Sylfaen a thrafod sut i gadw'n ddiogel.

Buodd pawb yn joio mas draw wrth wisgo pyjamas i'r ysgol ar gyfer Diwrnod Trwynau Coch!

Diolch yn fawr i Miss Roberts a ddaeth fel myfyrwraig i Flwyddyn 4 am 6 wythnos cyn hanner tymor, rydym yn dymuno pob hwyl iddi wrth iddi orffen ei chwrs dysgu yn y Brifysgol.

Ysgol Gyfun Garth Olwg

Jon Gower yn lawnsio ei lyfr newydd
Daeth Jon Gower i ymweld â disgyblion Blwyddyn 8 ddechrau'r hanner tymor i gynnal gweithdy a hyrwyddo ei nofel ddiweddaraf i blant, *Academi Mr Dŵm*. Nofel am ysgol gyda'r rheolau wedi eu troi ben i waered yw hi ac roedd disgwyl i'r disgyblion feddwl am reolau eu hunain ar gyfer eu hysgol ddelfrydol nhw. Fel y gallwch ddychmygu, roedd ganddyn nhw syniadau diddorol iawn!

Cynhadledd Ysgolion Bob Oed
Cafwyd dau ddiwrnod buddiol iawn yng Ngwersyll yr Urdd Caerdydd wrth i ddeg o ysgolion bob oed ar draws Cymru gwrdd. Dewiswyd chwe disgybl o Flwyddyn 9 a chwech o Flwyddyn 6 i fynychu'r gynhadledd. Gorfu i'r disgyblion baratoi araith i gyflwyno yn Siambr Tŷ Hywel a chawsant gyfle i holi cwestiynau yn dilyn cyflwyniadau'r ysgolion eraill. Roedd y disgyblion wedi cael cyfle i gymdeithasu gyda'i gilydd dros gêm o fowlio a chawsant y fraint o weld tîm rygbi Cymru yn y seremoni tu allan i'r Senedd. Ar yr ail ddiwrnod cafwyd y cyfle i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau gan gynnwys gweithdy gyda Casia Williams, Bardd Plant Cymru a'r Band Samba. Roedd yn brofiad buddiol iawn i'r disgyblion.

Gwobrau'r Uchel Siryf
Pleser oedd bod yng Ngwobrau'r Uchel Siryf a chlywed straeon ysbrydoledig pobl ifanc Morgannwg Ganol a'r gwaith gwych gwirfoddol maent yn gwneud. Roeddem yn hynod lwcus o gael George North fel y siaradwr gwadd a wnaeth hefyd ateb cwestiynau'r

gynulleidfa ychydig ddyddiau cyn i Gymru ennill y Gamp Lawn. Llongyfarchiadau i Seren Fowler a Chloe Jones ar eu llwyddiant yn y gwobrau. Cafodd Seren gymeradwyaeth uchel gan ennill siec o £100 a chafodd Chloe Jones 3ydd a siec o £250. Rydym yn falch iawn ohonoch ferched a'r gwaith diflino rydych yn gwneud yn wirfoddol yn ein cymuned.

Eisteddfod yr Urdd

Cafwyd diwrnodau gwych yn yr Eisteddfod Gylch a'r Eisteddfod Sir gyda doniau anhygoel disgyblion Garth Olwg yn cael eu harddangos. Diolch yn fawr i ddisgyblion Blwyddyn 13 sy'n llysgenhadon yr Urdd am helpu drwy arwain y diwrnodau.

Canlyniadau'r Eisteddfod Gylch
Deuawd iau: 1af – Mali a Catrin, 2il – Greta ac Eve. Unawd iau: 1af – Ffion Fairclough, 2il - Catrin England. Ymgom Hŷn: 1af – Tom, Charla, Lauren ac Eva, 2il – Lilly a Gwenllian, 3ydd – Ellie Mae a Hannah. Dawnsio unigol iau: 1af – Kai Easter, 2il – Ffion Kenny Griffiths. Ymgom iau: 1af – Eve, Gethin, Tom a Greta, 2il – Beca, Ffion, Georgia a Libby, 3ydd - Scarlett, Lilly, Catrin a Mali.

Canlyniadau'r Eisteddfod Sir
Parti llefaru iau – 1af. Parti llefaru hŷn – 1af. Ymgom hŷn – 1af. Cyflwyniad Dramatig hŷn – 1af. Côr SATB – 1af. Côr SA Blwyddyn 7-9 – 1af. Dawnsio unigol iau: 1af – Kai Easter. Unawd chwythbrennau iau: 1af – Elen Griffiths. Unawd telyn iau: 1af – Elen

Griffiths. Unawd bechgyn iau: 1af – Gethin Williams. Unawd allan o sioe gerdd: 1af – Shauna Langford Hopkins. Llefaru unigol hŷn: 1af – Nye Codd, 2il Sam Davies. Unawd merched hŷn: 2il – Ella Jones Iles. Unawd alaw werin iau: 2il – Ffion Fairclough. Llefaru unigol iau: 2il – Greta Williams. Deuawd iau: 2il – Mali a Catrin. Ymgom iau – 2il. Cyflwyniad dramatig iau – 2il. Parti merched iau – 2il. Parti bechgyn iau – 2il. Unawd merched iau: 3ydd – Ffion Fairclough



Y disgyblion yn troi'n athrawon!

Roeddem wedi cynnal cynhadledd ar gyfer athrawon Cymraeg ail-iaith yma yn Ysgol Gyfun Garth Olwg ym mis Chwefror. Roedd criw o athrawon wedi mynychu cwrs ar ddiwedd 2018 er mwyn gwella'u sgiliau a datblygu hyder wrth fynd ati i addysgu Cymraeg i safon ail iaith mewn ysgolion di-Gymraeg. Roedd y diwrnod wedi cael ei arwain gan ddisgyblion o Flynyddoedd 8 a 9: Tom Williams, Greta Williams, Mali Williams, Morgan Davies, Aneirwen Pike, Abigail Protheroe, Chloe Ward, Poppy Vanstone a Gwen Bailyes. Roedd y disgyblion wedi mynd ati i baratoi amrywiaeth o wersi o safon uchel er mwyn cynorthwyo'r athrawon i adolygu'r hyn yr oeddent wedi'i ddysgu eisoes. Roedd y gwersi'n cynnwys testunau megis idiomau, cyfarchion, bwydydd a mynegi barn. Roedd y diwrnod yn llwyddiant ysgubol ac roedd y disgyblion wir wedi serennu ac elwa'n fawr o'r dydd. Edrychwn ymlaen at groesawi'r athrawon yn ôl am ddiwrnod adolygu ychwanegol yn hwyrach yn y flwyddyn.

Parhad ar dudalen 16

Ysgol Llanhari

Mynd o 'Steddfod i 'Steddfod

Mae'n dymor prysur eisteddfota i'r disgyblion cynradd ac uwchradd ac fe brofwyd cryn lwyddiant yn yr Eisteddfodau Sir ym Maesteg a Phorthcawl yn ddiweddar. Dyma'r tro cyntaf i ddisgyblion yr adran gynradd gystadlu yn yr Eisteddfod Sir ac fe gafwyd perfformiadau gwych gan y grŵp dawnsio, y parti llefaru a Jude yn y gystadleuaeth llefaru i flwyddyn 2 a iau. Rydym wrth ein bodd y bydd y dawnswyr a Jude yn cystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Bae ym mis Mai. Llongyfarchiadau mawr a diolch i'r athrawon am hyfforddi. Bydd Llanhari hefyd yn brysur ar ddiwedd wythnos Sulgwyn gan i'r disgyblion ennill 11 gwobr gyntaf yn yr Eisteddfod Sir, yn unigolion, deuawd, partïon, ymgom a chorau. Ymdrech wych gan bawb a diolch eto i'r staff am hyfforddi.

Cynhaliwyd Eisteddfod yr ysgol cyn hanner tymor a bu cystadlu brwd yn yr adran gynradd ac uwchradd. Ar ddiwedd diwrnod gwych o gystadlu yn yr uwchradd, llys Trisant a fu'n fuddugol eleni. Llongyfarchiadau gwresog iddyn nhw a diolch o galon i'r beirniaid sef Mr Peter Griffiths, Miss Elaine Evans a Ms Angharad Jones. Enillwyd y gadair gan Joseff Kirkman o flwyddyn 12 gyda Gwenno Roberts o flwyddyn 8 yn ennill cadair CA3. Llongyfarchiadau mawr i'r ddau. Hyfryd oedd croesawu cyn-ddisgybl i draddodi'i beirniadaeth, sef Carys Tudor.

Croesi'r Ffin

Penllanw thema CA2 ar yr ail ryfel byd y tymor hwn oedd gwahodd rhieni i barti dathlu Diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop. Hyfryd oedd gweld ymdrech pawb i wisgo dillad o'r cyfnod ac fe fwynhawyd y cyfle i brofi bwyd parti o'r un cyfnod a dysgu ambell ddawns. Roedd yn gyfle gwych i'r rhieni i weld yr holl waith a wnaed gan y disgyblion wrth astudio'r thema.

Llwyddiant Pêl-droed

Mae tîm blwyddyn 11 wedi ennill ei le yn rownd derfynol Cwpan RhCT gyda buddugoliaeth o 8-0 yn erbyn y Pant. Mae'r tîm yn llond chwaraewyr talentog ac ymroddedig. Da iawn chi fechgyn! Llanhari enillodd y cwpan y llynedd felly mae'r bechgyn a Mr Roberts yn awyddus i wneud y dwbwl!

Pedwar Talentog

Llongyfarchiadau mawr iawn i Olivia Williams, Morgan Selby, Harri Stiff a Rhys Griffiths, y pedwar wedi profi llwyddiant ar lefel genedlaethol mewn chwaraeon yn ddiweddar. Llwyddodd Olivia i ddod yn bedwerydd yng nghystadleuaeth gymnasteg genedlaethol yr Urdd, enillodd Morgan wobr efydd ym Mhencampwriaeth Nofio'r Urdd yn ddiweddar, Harri yn bumed ym mhencampwriaeth sgïo Cymru a Rhys yn bumed ar y llawr a nawfed ar y bariau uchel ym mhencampwriaeth gymnasteg Prydain. Balch iawn ohonoch!

Diwrnod Trosglwyddo

Pynciau Gwyddonol a Mathemateg (STEM) oedd ffocws ail ddiwrnod trosglwyddo eleni. Cafwyd cyfle i fwynhau gwneud arbrofion yn y labordai a hefyd mireinio sgiliau rhif gyda'r adran Fathemateg. Ieithoedd fydd ffocws y diwrnod nesaf yn Nhymor yr Haf. Edrychwn ymlaen at groesawu disgyblion blwyddyn 6 eto bryd hynny.

Ysgol Llanhari
(Parhad o dudalen 15)

Diwrnod Rhyngwladol y Llyfr

Mae disgyblion a staff yr adran gynradd wrth eu bodd yn flynyddol yn dathlu Diwrnod y Llyfr! Roedd Harry Potter yn thema boblogaidd eleni! Yn ystod y diwrnod cafwyd cyfle i gyfnewid llyfrau a braf gweld hefyd pawb yn cael y cyfle i drafod neu arddangos eu hoff lyfrau.

Siarter Iaith

Digwyddiad diweddaraf y Siarter Iaith oedd cynnal gig ar y cyd ag ysgolion y clwstwr yn Ysgol Dolau ar ddechrau mis Mawrth. Croesawyd Bronwen Lewis i berfformio ac roedd plant CA2 wrth eu bodd!

Teithiau Tramor

Bu gwyliau hanner tymor yn amser prysur iawn i staff a disgyblion Llanhari. Teithiodd criw o chwedeg disgybl i Awstria i sgio ar y daith flynyddol, tra mai i Wlad yr Iâ aeth y daith Ddaearyddiaeth. Bu'n brofiad arbennig i bawb! Diolch i Mr Wilshaw a Miss Lougher am drefnu ac i'r staff am roi o'u hamser.

Ysgol Gyfun Garth Olwg
(Parhad o tudalen 14)

Llwyddiannau Chwaraeon

Llongyfarchiadau i'n prif ddisgybl Aneurin James ar ennill ei gap cyntaf dros Gymru dan 19. Buddugoliaeth wych i Gymru hefyd 33-12.

Rydym yn falch iawn o weld dau o'n cyn-ddisgyblion yn llwyddiannus yn y byd rygbi. Mae Daniel John wedi ennill ei gap cyntaf dros Gymru o dan 18 a bu Dillon Lewis yn rhan o dîm Camp Lawn Cymru! Da iawn chi.

Da iawn i dîm pêl-droed merched Blwyddyn 7 ac 8 ar ei buddugoliaeth yn ail rownd Cwpan RCT. Enillodd y tîm 5-1 yn erbyn Cwm Rhondda.

Llongyfarchiadau i Eurion John, Blwyddyn 7 am ennill cystadleuaeth ddisgen yng Nghaerdydd.

Llongyfarchiadau i Jack Karadogan sydd wedi cael ei ddewis i dîm Cymru o dan 15. Bydd yn chwarae ei gêm gyntaf yn erbyn Slofacia ar ddiwedd mis Mawrth. Pob hwyl iddo.

DIGWYDDIADAU A CHYRSIAU

Canolfan Garth Olwg

Ffair grefftau'r Pasg - 6.4.19 10-2

Pilates - Bore Mawrth 10.15-11.15

Ioga - Nos Lun 6-7

Mwynhau Llenyddiaeth - Cychwyn 3.4.19 7-9 (Pob Nos Fercher)

Golwg ar Gymru - Bore Mawrth 9.30-11.30

garth-olwg.cymru

01443 570 075